# Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# **Sbwriel**

## Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)



Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Mae sbwriel yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o blant yn ymwybodol ohono o oedran ifanc. Yn anffodus, mae ym mhob man o'u hamgylch, ond mae'n rhywbeth y gallant wneud gwahaniaeth iddo a theimlo wedi'u grymuso wrth wneud hynny. Yr hyn na fydd plant yn ei sylweddoli, efallai, yw na allwch weld yr holl sbwriel gyda'r llygad noeth. Pan fydd plastig yn pydru nid yw'n diflannu, dim ond mynd yn llai ac yn llai, a gall hyd yn oed gronynnau bach fod yn niweidiol i greadur bach iawn. Cânt eu bwyta gan anifeiliaid di-asgwrn-cefn ysglyfaethus gwyllt ar y tir ac yn y môr cyn cael eu pasio i lawr y gadwyn fwyd a chyrraedd y bwyd rydym yn ei fwyta, hyd yn oed. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r niwed y gall micro blastigau ei wneud a chymryd camau i'w hatal rhag cyrraedd y gadwyn fwyd.



# Safbwynt hinsawdd

Plastig yw un o'r llygryddion mwyaf hir ei barhad ar y Ddaear. Gall bara am 400 mlynedd neu fwy. Ac ar bob cam o'i oes, hyd yn oed ymhell ar ôl iddo gael ei daflu, mae plastig yn creu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at gynhesu ein hinsawdd. Wrth iddo bydru yn yr amgylchedd, mae'n creu micro blastigau sy'n llygru'r tir a'r môr. Mae'n bwysig ein bod yn lleihau ein defnydd o blastig, yn enwedig eitemau untro. Wrth i blant ddechrau sylweddoli beth sy'n digwydd i eitemau ar ôl i ni orffen gyda nhw, gyda lwc byddant yn edrych ar eu defnydd eu hunain o eitemau a sut maent yn cael gwared arnynt.

# Cadwyn Fwyd Micro Blastig

## Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)

Mae micro blastigau i'w cael mewn cymaint o bethau a ddefnyddiwn hyd nes y mae'r tir yn llawn ohonynt. Dengys y gweithgaredd hwn sut y gall y micro blastigau hyn deithio drwy'r eco system a'u cael mewn llawer o anifeiliaid.

## Deunyddiau sydd eu hangen:



- Llun o fwydyn (pryf genwair)
- Cardiau beth mae mwydod (pryf genwair) yn ei bwyta
- Papur gwyrdd a phinc wedi'i dorri yn ddarnau bach fel tocynnau, bydd angen llawer mwy o binc na gwyrdd arnoch. Mae'r gwyrdd yn cynrychioli deunyddiau naturiol a'r pinc yn cynrychioli sbwriel plastig
(Caniatewch oddeutu 5 tocyn fesul plentyn)
- Stopwats



## Cam 1

Dechreuwch drwy ddangos y llun o'r mwydyn (pryf genwair) ac eglurwch sut mae'n brif ailgylchwr natur, yn bwyta pa bynnag ddeunydd sy'n pydru y daw ar ei draws yn y tir cyn ei droi'n bridd. Fel rheol mae hyn yn cynnwys dail a phlanhigion marw ond os

daw ar draws micro blastigau yn pydru yn y pridd, bydd yn bwyta'r rhain hefyd. Ar ôl i'r mwydyn (pryf genwair) eu bwyta, maent yn aros yn ei gorff.

## Cam 2

Gofynnwch i'r plant beth allai fwyta  mwydod (pryf genwair) a dechrau gwneud rhestr. Dangoswch iddynt y lluniau sy'n rhestru llawer o ysglyfaethwyr  mwydod (pryf genwair) er bod llawer mwy. Faint oedd ar eu rhestr nhw.

## Cam 3

I ddechrau ar y gêm, dewch o hyd i le mawr ar y safle a gofyn i'r plant wasgaru fel nad ydynt yn rhy agos at ei gilydd,Mwydod (pryfed genwair) ydynt. Gwasgarwch y tocynnau gwyrdd ar draws y safle i gyd. Eglurwch y gollyngwyd bag plastig yn un ardal amser maith yn ôl a'i fod bellach wedi pydru yn ficro blastigau. Gwasgarwch docynnau pinc i ddangos lle gollyngwyd y bag.

## Cam 4

Dywedwch wrth ymwydod (pryfed genwai)r fod ganddynt 45 eiliad i gasglu cymaint o docynnau ag y gallant ond gan mai mwydod (pryfed genwair) ydynt ac ni allant symud yn gyflym iawn drwy'r pridd, bydd rhaid iddynt aros yn llonydd ac estyn allan i gasglu'r tocynnau. Os yw'r tir yn sych, gallent sleifio ar hyd y llawr.
Pan fydd yr amser ar ben, bydd angen iddynt gyfrif sawl tocyn gwyrdd a phinc maent wedi'u casglu.

## Cam 5



Dywedwch wrth ddau draean o'r rheiny sy'n weddill eu bod yn greaduriaid sy'n bwyta mwydod (pryfed genwair). Gallant fod yn dyrchod daear, adar duon, draenogod, nadroedd y gwair neu frogaod.

Bydd ganddynt 30 eiliad i 'fwyta' cymaint o bryfed genwair ag y gallant. Gwnânt hyn drwy fynd at bryf genwair a dweud 'blasus iawn'. Gan eu bod yn gigysyddion gallant symud o amgylch i ddal y mwydod (pryfed genwair).

Pan fydd yr amser ar ben, bydd angen iddynt gyfrif sawl tocyn gwyrdd a phinc sydd ganddynt. Dylent sylwi bod gan fwy ohonynt gymysgedd o'r ddau liw.

## Cam 6

Y plant olaf fydd y cigysyddion eilaidd megis llwynogod, gwyddweilch (Goshawk) a moch daear. Bydd ganddynt 20 eiliad i fynd i mewn a 'bwyta'r' cigysyddion cynradd drwy gymryd eu tocynnau a dweud 'blasus iawn'. Pan fydd eu hamser ar ben, bydd rhaid iddynt gyfrif eu tocynnau. Dylent sylwi bod y tocynnau pinc wedi'u gwasgaru'n dda ac mai ychydig iawn o gigysyddion sydd heb ficro blastigau yn eu system. Eglurwch mai dyma sy'n digwydd yn y byd naturiol.

## Cam 7

Trafodwch sut y gallai plastig ganfod ei ffordd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol. Beth yr ydym yn ei fwyta a allai fwyta mwydod (pryfed genwair)? Gallai un ateb gynnwys cywion ieir, gan fod cywion ieir sy’n rhydd I grwydro y tu allan yn bwyta infertebratau , y maent yn eu llowcio o'r ddaear yn cynnwys  mwydod (pryfed genwair) bach.

## Cam 8

Ailadroddwch y gêm ond yr ail grŵp fydd y cywion ieir a'r trydydd fydd y bodau dynol. Dengys hyn i'r plant sut y gallai micro blastigau effeithio arnynt hefyd ac nad yw'n ymwneud â'r byd anifeiliaid yn unig.

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Ymchwilio i sut mae'r broses hon yn digwydd gydag anifeiliaid y môr.
- Trefnu ymgyrch ysgol i leihau defnydd o blastig.
- https://www.kidsagainstplastic.co.uk/

https://www.natgeokids.com/uk/kids-club/cool-kids/general-kids-club/plastic-pollution/

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13